

DON'T BE FOOLED



**HEDDLU
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
POLICE**

Annwyl Rhiant neu Ofalwr,

Mae angen eich help i rybuddio pobl ifanc am beryglon bod yn fwlsyn arian.

Beth yw mwlsyn arian?

Mwlsyn arian yw rhywun sy'n trosglwyddo arian wedi ei ddwyn drwy ei gyfrif banc ei hun ar ran rhywun arall ac sydd yn cael ei dalu i wneud hynny.

Mae troseddwr yn defnyddio mwlsod i wyngalchu eu henillion.

Mae pobl ifanc yn cael eu targedu yn gynyddol i fod yn fwlsod arian. Maent yn cael eu recriwtio ar-lein, mewn person, drwy'r cyfryngau cymdeithasol, yn yr ysgol, coleg neu glybiau chwaraeon. Weithiau mae pobl sy'n eu hadnabod yn eu perswadio i gymryd rhan, yn aml am eu bod nhw yn gweithredu fel mwlsod arian eu hunain.

Nid yw'r mwlsod fel arfer yn ymwybodol o le y daw'r arian - fel arfer drwy dwyll neu sgamiau - a gall hyn arwain at ariannu troseddau fel delio â chyffuriau a masnachu pobl.

Mae bod yn fwlsyn arian yn anghyfreithlon

Pan gaiff rhywun ei ddal, bydd ei gyfrif banc yn cael ei gau a chaiff broblemau cael benthyciadau myfyrwyr, cytundebau ffonau symudol a chredyd yn y dyfodol. Gall gael ei arestio am wyngalchu arian sy'n cario dedfryd o 14 blynedd yn y carchar.

Yr arwyddion i chwilio amdano yw...

Arwydd posib yw rhywun â mwy o arian parod yn sydyn, yn prynu dillad drud newydd neu ffonau symudol neu declynnau eraill o'r radd uchaf heb unrhyw eglurhad o le mae'r arian wedi dod. Gall hefyd fod yn fwy cyfrinachgar, yn fwy distaw neu'n ymddangos o dan bwysau.

Gallwch chi a'ch plentyn ddysgu mwy a chael cyngor drwy ymweld â www.moneymules.co.uk gyda'ch gilydd.

Os ydych yn poeni y gall rhywun sy'n agos atoch fod yn fwlsyn arian gallwch gysylltu â Crimestoppers yn ddiennw ar 0800 555 111.

Peidiwch â chysylltu yn uniongyrchol ag unrhyw un yr ydych yn amau o fod yn fwlsyn arian.